

## **Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 – Yr Iaith Gymraeg**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 19 Mehefin 2015 mewn perthynas â Bil Cynllunio (Cymru) 2015. Fel y byddwch yn gwybod, cafodd y bil Gydsyniad Brenhinol ar ddydd Llun 6 Gorffennaf ac mae bellach yn Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Nodaf eich barn ynglŷn â'r Ddeddf a'i goblygiadau i'r iaith Gymraeg. Hyd yma, nid yw darpariaethau'r Bil rydych yn cyfeirio atynt wedi eu deddfu ac felly nid oes modd ar hyn o bryd eu dehongli nes bydd Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu is-ddeddfwriaeth a pholisi/ganllawiau cynllunio cenedlaethol diwygiedig i gymryd y Ddeddf i ystyriaeth. Bydd hyn wedyn yn rhoi cyfeiriad clir i'r goblygiadau i gynllunio mewn perthynas â'r iaith Gymraeg. Hyd yma, nid yw polisi/ganllawiau cynllunio cenedlaethol presennol mewn perthynas â'r iaith Gymraeg wedi eu diwygio i gymryd y Ddeddf i ystyriaeth. Rydym felly'n aros am fanylion pellach yr is-ddeddfwriaeth angenrheidiol a pholisi/ganllawiau cynllunio cenedlaethol wedi eu diweddarau gan Lywodraeth Cymru er mwyn deall goblygiadau'r darpariaethau hyn.

Fel y dywedwch, mae'r Ddeddf yn gwneud yr iaith Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol mewn perthynas â cheisiadau cynllunio. Fodd bynnag, mae'r polisi cynllunio cenedlaethol presennol ym mharagraff 4.1.2 Nodyn Cyngor Technegol 20 (Cynllunio a'r iaith Gymraeg) yn caniatáu i'r iaith Gymraeg gael ei thrin fel ystyriaeth berthnasol *'Wrth benderfynu ar geisiadau ac apeliadau cynllunio unigol lle gallai anghenion a buddiannau'r Gymraeg fod yn ystyriaeth berthnasol, rhaid i benderfyniadau, fel ag â phob cais cynllunio arall, fod yn seiliedig ar yr ystyriaethau cynllunio yn unig a bod yn rhesymol.'* Mewn perthynas â'ch ymholiad ynglŷn ag asesiad iaith Gymraeg o geisiadau unigol, mae'r polisi cenedlaethol presennol yn glir yn TAN20 (paragraff 4.1.2) *'...Ni ddylid cynnal asesiad o effaith ceisiadau cynllunio ar y Gymraeg gan y byddai hynny'n dyblygu prosesau dewis safleoedd y CDLI lle bo amcanion y CDLI yn nodi bod angen cynnal asesiad o'r fath.'* Felly, os nad oes unrhyw newid yn y polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru, nid yw'r awdurdod cynllunio lleol yn bwriadu gwneud asesiad unigol o effaith ceisiadau cynllunio ar yr iaith Gymraeg. Mater i Lywodraeth Cymru fydd penderfynu os cedwir y polisi cenedlaethol uchod fel rhan o weithredu'r Ddeddf Cynllunio.

Mewn perthynas â'r rhaglen ar gyfer adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol, mabwysiadwyd CDLI Torfaen ar 13eg Rhagfyr 2013. Yn unol â'r canllawiau, cychwynnir ar arolwg llawn o'r cynllun 4 blynedd ar ôl ei fabwysiadu, ym mis Rhagfyr 2017. Rydym ar hyn o bryd yn paratoi'r Adroddiad Monitro Blynnyddol ar y CDLI, a fydd yn ystyried os oes angen am arolwg llawn neu rannol o'r cynllun. Mewn perthynas â'ch pwynt ynglŷn â newid mawr mewn polisi neu ddeddfwriaeth genedlaethol yn ysgogi arolwg, fel yr amlinellir uchod, nid oes newid mawr i bolisi/ganllawiau cenedlaethol wedi ei gyhoeddi a fyddai'n ysgogi arolwg yn seiliedig ar yr iaith Gymraeg. Pan baratowyd y CDLI, gwnaed Arfarniad o Gynaliadwyedd, sy'n sicrhau bod y cynllun yn cymryd i ystyriaeth amrywiol ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gan gynnwys yr iaith Gymraeg. Mae'r CDLI yn delio â hyn ym mharagraff 1.12.1. Cynhyrchwyd taflen yn crynhoi'r CDLI hefyd ac mae ar gael ar ein gwefan CDLI. Yn unol â TAN20 presennol (para 3.11.3) caiff yr agwedd tuag at yr iaith Gymraeg ei hailystyried yn y cyfnod arolygu 4 blynedd os bydd y dystiolaeth yn cefnogi hyn.

## **Planning (Wales) Act 2015 – Welsh Language**

Thank you for your letter dated June 19 2015 regarding the Planning (Wales) Bill 2015. As you

will be aware the bill received Royal Assent on Monday 6 July and is now the Planning (Wales) Act 2015. I note your views in respect of the Act and its implications on the Welsh language. Currently the provisions of the Bill to which you refer have yet to be enacted and therefore it is not possible at this stage to interpret those until such time subordinate legislation and amended national planning policy/guidance is produced by the Welsh Government to take account of the Act. This will then provide a clear steer on the implications for planning in respect of the Welsh Language. To date current national planning policy/guidance in relation to the Welsh Language has not yet been amended to take account of the Act. We therefore await further detail of the necessary subordinate legislation and updated national planning policy/guidance to be put in place by the Welsh Government in order to understand the implications of these provisions.

As you refer; the Act makes the Welsh language a material consideration in respect of planning applications. However, existing national planning policy in para 4.1.2 Technical Advice Note 20 (Planning and the Welsh language) allows for the Welsh Language to be treated as a material consideration *'In determining individual planning applications and appeals where the needs and interests of the Welsh language may be a material consideration decisions must, as with all other planning applications, be based on planning grounds only and be reasonable'*. In relation to your query regarding a welsh language assessment of individual applications existing national policy in TAN20 (para 4.1.2) is clear *'...Planning applications should not be subject to Welsh Impact Assessment, as this would duplicate the site selection processes where LDP Objectives indicated a need for such assessment'*. Therefore in the absence of any change to national policy by the Welsh Government individual assessment of planning applications on the Welsh language is not proposed by the local planning authority. Whether the above national policy is retained as part of the implementation of the Planning Act will be decided by the Welsh Government.

Regarding the schedule for reviewing the Local Development Plan, the Torfaen LDP was adopted on 13<sup>th</sup> December 2013. In line with guidance the full review of the plan will be commenced 4 years after adoption in December 2017. We are currently preparing the first LDP Annual Monitoring Report which will consider whether there is a need for a full or partial review of the plan. In respect of your point regarding a major change in national policy or legislation may initiate a review, as outlined above no major change to current national planning policy/guidance has been published which would initiate a review based on the Welsh Language. The preparation of the LDP was informed by Sustainability Appraisal which ensures the plan takes account of a range of economic, social and environmental considerations including the Welsh language. The LDP addresses this issue in paragraph 1.12.1. A Welsh summary leaflet of the LDP was also produced and is available on our LDP website. In line with current TAN20 (para3.11.3) the approach to the Welsh language will be reconsidered at the 4 year review stage if supported by evidence.

Yn gywir iawn



**Cllr Bob Wellington, CBE**